TAAU

# Lefel 1 / Lefel 2 TAAU

# Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg

I'w addysgu o fis Medi 2027

## Canllaw Cyflym



Noder bod yr holl wybodaeth yn ein Canllawiau Cyflym yn amodol ar gymeradwyaeth Cymwysterau Cymru.

Yn Arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

# Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, yn ennyn diddordeb, ac wedi'u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon uchel, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Chymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae'n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.



# TAAU: Deniadol, ymarferol, ac wedi'u hadeiladu ar gyfer cynnydd

Mae ein cymwysterau Lefel 1/2 Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) wedi'u llunio i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr 14–16 oed, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy'n hygyrch, deniadol, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a chyflawni llwyddiant ystyrlon.

Mae cymwysterau TAAU yn cynnwys unedau, gan ganiatáu i ddysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda'r hyblygrwydd hwn, mae'n bosibl gwneud cynnydd cyson, mae llai o bwysau asesu, ac mae'r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maen nhw'n ei gyflawni drwy gydol y cwrs.

Ar gyfer ein cymwysterau TAAU, mae asesiadau allanol, sydd fel arfer yn werth 40% o'r cymhwyster cyffredinol, wedi'u llunio er mwyn asesu gwybodaeth ar lefel sylfaenol a gellir eu cwblhau tua dechrau'r cwrs, gan roi mwy o amser i ddysgwyr ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau lefel uwch. Mae'r strwythur hwn yn ychwanegu trylwyredd a hygrededd i'r cymhwyster tra'n helpu i leihau llwyth gwaith athrawon.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein cymwysterau TAAU yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Gall cyflawniad uchel mewn un maes wrthbwyso perfformiad is mewn maes arall, gan hyrwyddo profiad asesu mwy cynhwysol a chefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, yn ysgogol ac wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae cymwysterau TAAU CBAC yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudio ymhellach ar Lefelau 1 i 3. P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddan nhw'n ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

**Gweler ein hamrywiaeth lawn o gymwysterau TAAU**

www.cbac.co.uk/ton3

# Ynglŷn a'r TAAU mewn Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg

Mae'r diwydiannau creadigol yn sector twf dynamig yng Nghymru, sy'n cael ei lywio gan arloesi digidol a llwyfannau cyfryngau amrywiol.

Mae'r cymhwyster hwn yn cyflwyno dysgwyr i gwmpas cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, rolau allweddol, ac arferion y diwydiant, ochr yn ochr ag ystyriaethau moesegol, cyfreithiol a thechnolegol.

Drwy brojectau ymarferol, mae dysgwyr yn cynllunio, cynhyrchu a mireinio cynnwys y cyfryngau, gan ddatblygu sgiliau creadigol, technegol a threfnu wrth iddyn nhw baratoi i astudio ymhellach neu i ddilyn prentisiaethau neu yrfaoedd yn y diwydiant bywiog hwn sy'n datblygu'n gyflym.

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster hwn?

Mae ein cymhwyster Lefel 1/2 TAAU Cynhyrchu Creadigol a'r Cyfryngau, a Thechnoleg wedi'i lunio fel dewis galwedigaethol deniadol arall neu i ategu cymwysterau TGAU ar gyfer dysgwyr 14–16 oed mewn ysgolion.

Mae'n cynnig llwybr clir i ddeall y diwydiannau creadigol, eu rolau amrywiol, a'u cyfleoedd gyrfa, wrth ddatblygu sgiliau ymarferol a thechnegol.

Mae'r sylfaen gref hon yn cefnogi symud ymlaen i astudio ymhellach neu i ddilyn prentisiaethau neu gyflogaeth mewn sector dynamig sy'n arloesi ac yn sbarduno twf yng Nghymru.

# Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

| Uned | Ffocws |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad i'r diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg**<br><br>1.1. Y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau a thechnoleg yng Nghymru<br><br>1.2. Gweithio yn y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg<br><br>1.3. Ystyriaethau moesegol a chyfreithiol yn y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg<br><br>1.4. Datblygiadau yn y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau, a thechnoleg | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn archwilio:<br><br>• y diwydiannau cynhyrchu creadigol a'r cyfryngau a thechnoleg yng Nghymru<br><br>• strwythurau, rolau ac arferion y sector, ochr yn ochr ag ystyriaethau moesegol, cyfreithiol a thechnolegol<br><br>• sut mae cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau yn cael eu llywio gan bwrpas, cynulleidfa a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg. |

| Uned | Ffocws |
|---|---|
| **2. Offer, prosesau a sgiliau rhag-gynhyrchu**<br><br>2.1 Prosesau creadigol rhag-gynhyrchu<br><br>2.2 Offer rhag-gynhyrchu<br><br>2.3 Mireinio a gwerthuso syniadau | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ymarferol er mwyn:<br><br>• cynllunio a pharatoi projectau creadigol a chyfryngau'n effeithiol<br><br>• creu cynigion a defnyddio offer a thechnegau rhag-gynhyrchu i fodloni briffiau cleientiaid<br><br>• trefnu, rheoli projectau, ac addasu cynnwys ar gyfer pwrpas a chynulleidfaoedd gwahanol. |
| **3. Offer, prosesau a sgiliau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu**<br><br>3.1 Cymhwyso prosesau cynhyrchu a chreadigol<br><br>3.2 Creu cynhyrchion y cyfryngau<br><br>3.3 Mireinio cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ymarferol er mwyn:<br><br>• defnyddio sgiliau creadigol, technegol a chynhyrchu i gynhyrchu cynhyrchion creadigol a'r cyfryngau<br><br>• dogfennu prosesau, rheoli adnoddau, a mireinio allbynnau drwy adborth a gwerthuso, gan sicrhau y gall dysgwyr gyflwyno cynnwys y cyfryngau amlfodd o ansawdd uchel. |

# Crynodeb o'r Asesu

| Uned | Math |
|---|---|
| 1 | **Prawf Sector wedi'i farcio gan CBAC**<br><br>**1 awr – 50 marc – 20% o'r Cymhwyster**<br><br>Mae dwy adran i'r prawf sy'n werth 25 marc yr un.<br><br>Mae Adran A yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau gwrthrychol, fel cwestiynau amlddewis, ymateb lluosog, llenwi'r bylchau, llusgo a gollwng, a chwestiynau man poeth.<br><br>Mae Adran B yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau sy'n gofyn am atebion byr.<br><br>Gall canolfannau ddewis cofrestru ymgeiswyr am fersiwn ar-sgrin neu ar bapur. |
| 2 | **Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan CBAC**<br><br>**14 awr – 50 marc – 20% o'r Cymhwyster**<br><br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff y cleient penodol a phum tasg.<br><br>Bydd briff y cleient ar gael ar safle Porth CBAC ym mis Medi'r flwyddyn astudio gyntaf. Bydd briff y cleient yn newid bob tair blynedd.<br><br>Bydd dysgwyr yn dewis un cynnyrch y cyfryngau o ddewis o un ar ddeg. |

DRAFFT

| Uned | Math |
| --- | --- |
| 3 | **Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y Ganolfan**<br><br>**Yr amser sy'n cael ei argymell yw 32 awr**<br>**90 marc – 60% o'r Cymhwyster**<br><br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff cynhyrchu penodol a thair tasg.<br><br>Bydd briff y cleient ar gael drwy Borth CBAC a bydd yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb.<br><br>Bydd dysgwyr yn dewis un digwyddiad o ddewis o dri a byddan nhw bob amser yn cynhyrchu ymgyrch hyrwyddo amlfodd ar gyfer y digwyddiad a ddewisir.<br><br>Rhaid i'r ymgyrch hyrwyddo gynnwys un elfen glyweledol/sain a naill ai un elfen ryngweithiol neu un elfen ddylunio graffig/gyhoeddi. |

DRAFFT

Mae ein cymwysterau TAAU yn dod â dysgu yn fyw. Trwy gynnig profiadau ymarferol, bywyd go iawn ac asesiadau hyblyg a chynhwysol, maent yn grymuso pobl ifanc i feithrin hyder, datblygu sgiliau a llwyddo – gan osod sylfaen cadarn ar gyfer datblygu, dysgu yn y dyfodol a bywyd gwaith.

Mae ein tîm ymroddgar yma i'ch arwain ar y broses, yn ogystal â'n hadnoddau wedi'u teilwra a'n cyfleoedd dysgu proffesiynol, a fydd yn eich ysgogi i gyflwyno'r cymwysterau newydd a chyffrous yma.



**Sarah Harris**

Cyfarwyddwr Cynorthwyol
(Cymwysterau Galwedigaethol)

# Oes angen mwy o gefnogaeth arnoch chi?

Mae ein Cynrychiolydd Rhanbarthol Sophie Dobbs ar gael i'ch cefnogi fel canolfan i gyflwyno'r cymwysterau newydd cyffrous hyn:

**Rwy'n gweithio'n agos gydag ysgolion a cholegau ledled Cymru, yn eu helpu i ddeall y cymwysterau Ton 3 newydd sydd i ddod fel rhan o ddiwygio Cymwysterau Cenedlaethol 14–16 ym mis Medi 2027.**

**Rwyf yma i gefnogi canolfannau ar bob cam o'r daith –o'r sgyrsiau cynnar a chynllunio, hyd at gyflwyno'r cymwysterau.**

**Cyn dechrau yn CBAC, treuliais 17 mlynedd mewn addysg uwchradd. Mae cael y profiad hwnnw, a dealltwriaeth glir o'r heriau ymarferol y mae uwch arweinwyr yn eu hwynebu o ran staffio, amserlennu, adnoddau a chyllidebau, yn golygu fy mod mewn sefyllfa dda i gefnogi canolfannau yn strategol ac yn ymarferol drwy drawsnewidiad Ton 3**



Cysylltwch â Sophie:

**ton3@cbac.co.uk**

Ton 3

## Mae'r don olaf o Gymwysterau Cenedlaethol 14-16 ar gyfer Gymru ar y ffordd, a bydd y cymwysterau'n barod i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2027.

Rydyn ni'n adeiladu ar bopeth a ddysgwyd wrth gyd-greu ein cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru, gan gydweithio â dros 100 o ganolfannau a 60+ o gyflogwyr, i ddatblygu amrywiaeth gynhwysol, eang a chytbwys o gymwysterau sy'n galluogi ffyrdd gwahanol o ddysgu a datblygu sgiliau.

Dewch i ddarganfod amrywiaeth o gymwysterau newydd cynhwysol gyda CBAC, bwrdd arholi mwyaf sefydledig Cymru:

- **Project Personol**
- **Y Gyfres Sgiliau (Sgiliau Bywyd a Sgiliau Gwaith)**
- **Sylfaen (Cyffredinol ac yn Gysylltiedig â Gwaith)**
- **TAAU (Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd)**

## Dysgu mwy: www.cbac.co.uk/ton3

